Teitl y Swydd: Cynorthwyydd Ymchwil: - Prosiect POLYSMART

Uned/Ysgol: Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

Gradd: 6 A/B

HERA: RIS009

**Prif bwrpas y rôl**
Bydd deiliad y swydd, o dan gyfarwyddyd y Prif Ymchwilydd, yn cydweithio'n agos â thîm y prosiect wrth baratoi dogfennaeth y cais moeseg; recriwtio cyfranogwyr; casglu a dadansoddi data meintiol a/neu ansoddol a lledaenu canlyniadau allweddol y prosiect.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

- I arwain, cyflawni a bod yn bwynt cyswllt allweddol ar gyfer y prosiect perthnasol.
- I ddatblygu, dylunio a rheoli'r sesiynau casglu data.
- I ddatblygu, dylunio a rheoli mewnbwn data ar y cyd â phartneriaid ymyrraeth ac ymchwilwyr.
- I ddarparu arbenigedd ac arweiniad technegol sy'n gysylltiedig â chasglu data prosiect, gan gynnal cronfa ddata gyswllt cyfranogwyr.
- I gefnogi a hyfforddi Cynorthwywyr Ymchwil lle bo angen.
- I helpu i ddatblygu, dylunio a rheoli'r prosiect ymchwil, gan ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau a dadansoddi'r data sy'n deillio o hynny.
- I gydweithio ac ysgrifennu ffurflenni moeseg ar gyfer prosiectau, yn unol â phrosesau cymeradwyo moesegol y Brifysgol a chanllawiau storio data / GDPR.
- I feithrin cysylltiadau a chynnal gweithgareddau gyda chynrychiolwyr mewnol ac allanol perthnasol o grwpiau rhanddeiliaid i lywio datblygiad y prosiect.
- I recriwtio cyfranogwyr ar gyfer casglu data yn unol â'r safonau moesegol cymeradwy.
- I gyfrannu at ledaenu canfyddiadau ymchwil, trwy gyflwyniadau i randdeiliaid perthnasol.
- I gyd-awduro adroddiadau ymchwil a chyhoeddiadau ar yr ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect.
- Cynnal a datblygu gwybodaeth am y pwnc yn y meysydd hynny sy'n berthnasol i'r prosiect.

**Manyleb person**

**Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol**

- Cymhwyster lefel doethuriaeth neu'n gweithio tuag at gyflwyno traethawd ymchwil.

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Gwybodaeth sy'n berthnasol i'r maes pwnc.
2. Y gallu i ymgysylltu a chysylltu â grwpiau rhanddeiliaid allweddol a datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol.
3. Y gallu i ysgrifennu ceisiadau moeseg ymchwil a llywodraethu yn y maes perthnasol.
4. Y gallu i ddylunio prosesau ar gyfer recriwtio cyfranogwyr, casglu data a storio data.
5. Sgiliau dadansoddol rhagorol, gyda phrofiad o ddadansoddi data ansoddol a/neu feintiol.
6. Y gallu i gyfleu gwybodaeth gymhleth yn glir, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
7. Yn ymwys wrth ddefnyddio Microsoft Office.
8. Y gallu i ddefnyddio menter bersonol a chreadigrwydd i ddatrys problemau a wynebir yng nghyd-destun ymchwil.
9. Sgiliau rhyngbersonol cryf gyda'r gallu i gyfathrebu ac uniaethu ag amrywiaeth o academyddion a gweithwyr proffesiynol ar wahanol lefelau trwy adroddiadau, mewn cyfarfodydd neu drwy gyflwyniadau.
10. Hunan-gymhellol a threfnus, gyda phrofiad o weithio i derfynau amser tynn.
11. Profiad o gyflwyno canfyddiadau ymchwil.
12. Profiad o recriwtio cyfranogwyr.

**Dymunol**

1. Profiad o gyflwyno adroddiadau, cyflwyniadau cynadleddau a/neu gyhoeddiadau mewn cyfnodolion
2. Profiad o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a chreu deunyddiau lledaenu sy'n apelio'n weledol.
3. Parodrwydd a'r gallu i deithio i leoliadau oddi ar y campws.

**Gofynion sgiliau Cymraeg**
Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn yr iaith Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, sicrhewch eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi ei hun yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Nid oes angen gwiriad DBS ar y swydd hon.

**Rhagor o wybodaeth**
Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.